# Atebion i Gwestiynau Ysgrifenedig y Cynulliad i'w hateb ar 28 Ionawr 2010

[R] yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.
[W] yn nodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.

## Cynnwys


2 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Fusnes a'r Gyllideb

3 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Blant, Addysg a Dysgu Gydol Oes

3 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Faterion Gwledig

## *Gofyn i'r Gweinidog dros Fusnes a'r Gyllideb*

**Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed):** Ar gyfer pob un o adrannau Llywodraeth Cynulliad Cymru, pa gylchgronau a chyfnodolion a gyllidir a beth yw cost hynny. (WAQ55500)

***Rhoddwyd ateb ar 19 Ebrill 2011***

Ceir gwybodaeth yn y tabl atodedig am y cylchgronau a'r cyfnodolion allanol a ariennir gan bob adran yn Llywodraeth Cynulliad Cymru. Mae'r costau'n cwmpasu cyfnod o 9 mis, Ebrill 2009 i 31 Rhagfyr 2009 yn y flwyddyn ariannol hon.

| Department | Journal/Magazine Title | Cost for the period 1 April 2009-31 December 2009 |
|---|---|---|
| Economy and Transport | Advances Wales<br>The Build | £72,750.00<br>£10,757.00 |
| Children, Education, Lifelong Learning and Skills | Thrive – The Fostering Network Wales Magazine for Young People<br>CADWYN<br>Cliczine | £12,322.83<br><br>£10,912.00<br>£12,015.00 |
| Sustainable Futures | Archaeology in Wales *2<br>Archaeologia Cambrensis *2<br>British and Irish Archaeological Bibliography *2<br>Transactions of the Anglesey Antiquarian Society *2<br>Heritage in Wales<br>Cymal<br>The True Taste Magazine *3<br>Gwlad *4 | £1.837.00<br>£2,122.75<br>£1,500.00<br>£390.72<br>£38,422.45<br>£2,935.00<br>£176,400.00<br>£371,224.35 |
| Health and Social Services | The department does not fund any journals or magazines | £0.00 |
| Public Services and Local Government Delivery | The department does not fund any journals or magazines | £0.00 |
| Central Services | CYTGORD | £625.00 |
| **Total** | | **£714,214.10** |

1. The information does not include journals and magazines funded through Assembly Government Sponsored Bodies. It also does not include internal journals and magazines.
2. Grant Aid Contribution from the Welsh Assembly Government. Costs for the full year have been paid during this period.
3. The True Taste Magazine is produced for consumers. The Magazine is utilised at all trade (both UK and overseas) and consumer facing shows and Food Festivals across Wales. The magazine is also distributed through all hospitality establishments within Wales. The publication is produced to promote Award Winning Welsh Food & Drink producers in Wales and also communicates the messages in the Food Tourism and Local Sourcing Action Plans launched by the Minister for Rural Affairs in 2009.
4. Gwlad is a targeted publication sent directly to 38,000 farmers in Wales eleven times per year. It carries news features but its primary function is to keep the farming industry up to date with a mix of essential and helpful information. Gwlad plays a vital role delivering on the Welsh

Assembly Government's commitment to simplify and reduce literature in line with the red tape review.

## *Gofyn i'r Gweinidog dros Blant, Addysg a Dysgu Gydol Oes*

**Jenny Randerson (Canol Caerdydd):** A yw Llywodraeth Cynulliad Cymru neu ei hasiantaethau wedi cyhoeddi unrhyw ofynion neu gyngor i sefydliadau Addysg Uwch i fodelu amrywiol doriadau posibl mewn cyllid ar gyfer unrhyw un o'r pum mlynedd nesaf ac, os felly, beth yw'r rheini. (WAQ55499)

***Rhoddwyd ateb ar 19 Ebrill 2011***

Cyhoeddwyd y datganiad i'r wasg canlynol gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ym mis Ionawr 2010, ynglŷn â chyllideb 2010-11:

Mae'n hanfodol fod y sector Addysg Uwch yng Nghymru yn defnyddio'r £400m a mwy y mae'n ei dderbyn yn flynyddol o Lywodraeth Y Cynulliad. "Mae'r strategaeth addysg uwch newydd i Gymru, Er Mwyn Ein Dyfodol, yn gosod fframwaith i sicrhau fod y sector yn ateb galw pobl ac economi Cymru.
Bydd addysg uwch yn derbyn £429 miliwn ar gyfer 2010-11, sydd yn 1. 4% o gynnydd ariannol ers 2009-10. Er nad oes gostyngiad mewn cyllid, rydym yn disgwyl i sefydliadau addysg uwch wneud gwelliannau effeithlonrwydd i ryddhau arian ar gyfer gwasanaethau, yn enwedig yn yr hinsawdd economaidd presennol.

O ran modelu cyllidebau yn y dyfodol, cyhoeddwyd Cylchlythyr W09/10HE - Ceisiadau am Ragolygon a Thargedau Ymgeisio'n Uwch 2009 gan Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC), ar 1 Mai 2009, i sefydliadau addysg uwch yng Nghymru. Yn y cylchlythyr hwn, gofynnwyd i sefydliadau gyflwyno rhagolygon ariannol ar gyfer 2008/09 i 2012/13. Nododd hefyd y tybiaethau ar gyfer CMC ac enilion effeithlonrwydd y disgwyliwyd i sefydliadau eu defnyddio wrth lunio eu rhagolygon.

Yn dilyn cyfarfod ym mis Gorffennaf lle yr ystyriodd y Cyngor ragolygon ariannol y sefydliadau AU, cyhoeddwyd gohebiaeth i'r sector gan Brif Weithredwr CCAUC yn nodi y cafodd y tybiaethau a roddwyd yng Nghylchlythyr W09/10HE eu cynnig cyn cael cadarnhad o gyllideb 2010-11 neu rai dilynol. Cynghorodd y dylai'r sefydliadau ystyried y gostyngiadau a oedd yn debygol o effeithio ar grantiau CCAUC ar ôl 2009-10 wrth lunio eu rhagolygon ariannol, sy'n fwy na'r enillion effeithlonrwydd a nodwyd yn y tybiaethau a roddwyd yng Nghylchlythyr W09/10HE.

Ar ôl derbyn rhagolygon ariannol gan sefydliadau, cyhoeddwyd gohebiaeth bellach gan Brif Weithredwr CCAUC yn gofyn i'r sefydliadau rhoi tystiolaeth o'u tybiaethau ariannol a sicrhau bod ganddynt strategaeth ar waith er mwyn ymateb i unrhyw ostyngiadau yn y gyllideb. Anfonwyd ymatebion gan yr holl sefydliadau addysg uwch.

Ar ôl i'r Cynulliad gadarnhau cyllideb derfynol 2010-11 ar 8 Rhagfyr cyflwynwyd manylion i'r Cyngor yn ei gyfarfod ar 11 Rhagfyr. Yn absenoldeb unrhyw gyllidebau dangosol ar gyfer blynyddoedd dilynol, cynigodd y Cyngor y dylid modelu ar sail gostyngiad o hyd at 5% yn ystod blwyddyn ariannol 2011-12 fel y gellid defnyddio'r ddwy flwyddyn ariannol i gyfrifo cyllidebau'r flwyddyn academaidd 2010/11.

Hysbyswyd y sefydliadau addysg uwch o hyn mewn llythyr gan CCAUC ar 23 Rhagfyr 2009. Roedd y llythyr yn ailadrodd hefyd nad oedd cyllideb ddangosol wedi'i chyhoeddi gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer 2011-12, ac nad oedd sail bendant felly i'r tybiaethau a roddwyd o ran cyllideb y flwyddyn ariannol hon.

## *Gofyn i'r Gweinidog dros Faterion Gwledig*

**Brynle Williams (Gogledd Cymru):** Pa asesiad y mae'r Gweinidog wedi'i wneud o'r goblygiadau i iechyd anifeiliaid yng Nghymru yn dilyn canfod Anemia Heintus Ceffylaidd yn ddiweddar yn Wiltshire. (WAQ55498)

***Rhoddwyd ateb ar 09 Chwefror 2010***

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ymgysylltu'n llawn â DEFRA o ran yr achos o Anemia Heintus Ceffylaidd yn Wiltshire. Ar hyn o bryd mae'r safle o dan gyfyngiadau a chafodd y ddau geffyl heintus eu difa'n ddi-boen yn unol â'r rheoliadau cyfredol. Yn gyffredinol, mae cyngor arbenigol yn dynodi bod y tebygolrwydd o'r haint yn cael ei lledaenu gan bryfaid yn brathu yn fach iawn. Mae'r risg o ledaenu pellach ymhlith ceffylau gan offer yn isel, a gellir ei liniaru drwy fesurau hylendid da. Dyma'r achos cyntaf o'r haint yn cael ei fewnforio i Brydain Fawr ers 1976 ac mae'n dangos effeithiolrwydd y drefn brofi ôl-fewnforio.